"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1885. [RHIF 49.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y Cymmod	193
Cynghorion i Bâr Ieuanc newydd briodi	195
Englynion i Mr. Henry Howell	197
Cymmanfa Flynyddol y Meddygon yn Nghaerdydd	197
Hen Aelwyd fy Nhad	200
Crediniaethau ac Opiniynau Undodwr	201
Sefyllfa Grefyddol Cymru cyn Charles o'r Bala	202
Ffydd yr Eglwys Gyffredinol	205
Nodynau Gwasgarog	207
Brwydro â'r Ystorm	210
Wedi ei Demtio fel Ninau	212
Brain Beiddgar	213
Gwaith a Gweddi	214
Manion a Hanesion	214
Marwgofion	216

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1885. [RHIF 49.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y CYMMOD.

"WEL, nid wy'n amheu dim, mae yn ddigon tebyg; ond peidiwch fy mlino rhagor. Mae eich brawd wedi priodi rhoces lom—un y darfu i mi ei wahardd i briodi; ac ni faddeuaf iddo, pe byddai iddynt newynu ill dau."

Cyfarchwyd yr araeth ddifrifol, sobr yma at ferch ieuanc tua deunaw oed, feallai, mor brydferth â'r lili sydd yn ymguddio o dan y dyfroedd tywyllion. Yr oedd yn rhanu y cudynau arianaidd ar dalcen uchel, hardd ei thad, o'r hwn yr oedd ei thalcen hi yn ddarlun perffaith, ac yn pleidio achos ei brawd, yr hwn oedd wedi priodi yn groes i ewyllys a dymuniad ei thad, a'r hwn oedd felly wedi ei ddietifeddu ganddo.

Yr oedd Mr. Evans yn hen wr cyfoethog. Yr oedd ganddo ddau o blant, y mab anufudd a'r lodes hardd a gyfeiriwyd ati. Yr oedd y ferch anwyl yn myned yn y blaen ac yn pledio:—

"Dada anwyl, O! maddeuwch iddo. Ni wyddoch chi ddim y fath lodes hardd mae wedi briodi, ac———"

"Digon tebyg, digon tebyg," ebe'r hen wr, "ond gadewch lonydd i mi, ac agorwch y drws ychydig, mae y mŵg yn troi."

"Wel," meddai Elen etto, "a wnewch chi ddim ei gweled yn awr —y mae mor dda—a'r bachgen, y mae yn edrych mor ddiniwed."

"Beth dd'eydsoch chi?" ebe'r tad, "Bachgen! a oes genyf fi ŵyr? Beth, Elen, chlywais i air o hyn o'r blaen!. Ond y mae'n ddigon tebyg—yn ddigon tebyg. Wel, 'nawr, gadewch i mi gael y *chocolate*, a cherddwch at eich gwers ar y *piano*."

Gadawodd Elen ef. Yr oedd calon yr hen wr yn dechreu toddi.

"Wel," ebe fe, "yr oedd Charles yn wastad yn fachgen da, dipyn yn wyllt pan yn y coleg, ond yr oeddwn i i'm beio gymmaint ag yntau,

feallai, o herwydd rho'i gormod o raff iddo; ac yr oedd yn wastad yn fachgen da i'w hen dad; ond darfu iddo anufuddhau i mi trwy briodi y rhoces lom yna; ac etto, fel y dywedai fy hen gyfaill Tom Morgan gynt, mae yn rhaid i ni faddeu. Druan o Tom, b'le mae? mi roddwn fy hen 'sgidiau i gyd pe cawn i ond gwybod beth ddaeth o hono; pe gallwn i ond cael gafael ynddo ef neu yn un o'i blant. Yr wyf yn dymuno ar Dduw nad oes yr un o honynt yn dyoddef. Nid oedd ei amgylchiadau ond cyffredin ac isel. Oh! 'r hen ystafell fyglyd yma—fel y mae'n peri i'm llygaid ddyfrhau. Nad allwn i wybod pwy oedd y grotes yna briododd Charlie. Nid w i ddim erioed wedi gofyn. Rhaid i mi dreio cael allan, ac——" "Yr wyf yn meddwl ei bod yn ddigon tebyg," ebe'r hen wr. Ymddengys fod ei feddwl (meddwl Mr. Evans) fel mewn rhyw dipyn o benbleth dyryslyd.

Ar hyny, dyna Elen yn arwain bachgen bach, pert, tua dwy flwydd oed i'r ystafell. Ni allai ei wallt cyrliog a'i fochau cochion ddim llai na gwneyd i un ei garu.

"Pwy ydy hwna?" ebe'r hen wr, gan sychu ei lygaid.

"Hwn? dyma fab Charles," ebe Elen, a chan daflu un fraich o amgylch gwddf ei thad, â'r fraich arall hi osododd y plentyn ar ei arffed. Edrychodd y bychan yn dyner i fyny i wyneb yr hen wr, ac yn ei ddull bach, deniadol, ei hunan, dywedodd—

"Da'cu, pa'm y'ch chi'n llefain?"

Cofleidiodd yr hen wr y plentyn i'w fynwes, a chusanodd ef drosodd a throsodd drachefn. Ac wedi tawelu ychydig ar ei deimladau cynhyrfus, gofynodd i'r plentyn beth oedd ei enw.

"Tom Morgan Evans," ebe'r bach, "mae nhw wedi fy enwi ar ol fy nhadcu."

"Beth," ebe'r hen wr, "beth ydyw hyn wy'n glywed—Tom Morgan, eich tadcu?"

"Ie," ebe'r bach, "ac y mae'n byw gyda mami yn——"

"Ie'r un yw, 'rwy'n teimlo'n sicr mai'r un yw—fy hen gyfaill Tom Morgan yw—cyfaill fy ieuenctid yw. Elen, Elen, b'le'r ydych? 'Nolwch fy ffon i mi ar unwaith; deuwch ar unwaith, blentyn. B'le'r ydych ch'i c'yd?"

Cychwynasant ar unwaith gyflymed ag y medrent, ac yn mhen ychydig amser, dyma nhw wrth ddrws bwthyn bychan llwm ond cryno ei fab. Ac yno, yn y cornel, y gwelodd ei hen gyfaill Tom Morgan, ar ystol deirtroed, yn plethu gwiail basgedi, tra yr oedd ei hen aelodau yn amlygu ar unwaith, i lygaid craffus Mr. Evans, mor annghyfartal oeddynt i'r gwaith angenrheidiol hwn. Yr oedd ei ferch brydferth—gwraig Charlie—yn parotoi bwyd, a Charlie ei hunan allan yn chwilio am ryw orchwyl i gadw y newyn oddiwrth y drws.

"Och, och fi!" ebe'r hen wr mewn dagrau, "fy mai i yw i gyd—fy mai i yw," gan fwrw ei freichiau amgylch gwddf Tom Morgan.

"De'wch, de'wch," ebe Mr. Evans, "de'wch gyda fi adref i gyd gyda'n gilydd; mae acw ddigon a digon o le i ni."

Erbyn hyny, yr oedd Charles wedi gwneuthur ei ymddangosiad. Gofynodd faddeuant ei dad, ac fe'i rhoddwyd yn rhwydd iddo; ac yr

oedd Elen bron allan o bwyll gan lawenydd. "O mor ddedwydd fyddwn ni," ebe hi, "ac fe ddaw 'nhad i garu Tomi bach—fe ddaw Tomi cyn hir i fod yn pet y teulu, on'd daw e', data?"

"Daw, daw, yn debyg iawn, yn debyg iawn," ebe'r hen wr, "yn debyg iawn, debyg, debyg iawn——"

C. F.

CYNGHORION I BAR IEUANC NEWYDD BRIODI.

Yr ydych wedi eich uno mewn cyflwr neu ystad sydd ar y cyfan y mwyaf dedwydd ar y ddaear. Na feddyliwch wrth hyn, fy mod yn darlunio rhyw baradwys na phlanodd natur, ac na welodd bod dynol erioed. Nid wyf yn cyfeirio at y pleser y mae dychymmyg brwd yn ddarlunio i'r meddwl, a'r hyn y mae pobl ieuanc dibrofiad yn ei ddysgwyl. Y mae pobl ieuanc yn y cyffredin yn dychmmygu eu bod, pan yn priodi, yn myned i baradwys llawn o flodau prydferth a pher ei harogl, a phob ffrwythau addfed, a'i bod yn haf yno bob amser. Ond anaml iawn y ceir dynion fel yma, ac anfynych y mae profiad yn sylweddoli yr hyn y mae dychymmyg yn ei ddychymmygu. Ond y dedwyddwch yr wyf yn siarad am dano yw, nid y ffrwythau anmhrydlon sydd yn cael eu hachosi gan wres annaturiol tŷ twym, ond effaith tyfiant amser ag sydd yn cael ei addfedu gan ddylanwad iachusol a naturiol synwyr da a doethineb pwyllog. Fy amcan, wrth ysgrifenu fel yma yw, fel na fyddoch yn cael eich digaloni wrth ddyoddef rhai pethau diflas allant syrthio i'ch rhan yn nghwrs amser. Byddwch ofalus rhag chwyddo croesau bychain a dibwys. Na oddefwch i'r meddwl gael ei flino a'i gythryblu gan bethau dychymmygol y dylent gael eu hannghofio ar unwaith. Meddyliwch am eich trugareddau, ac annghofiwch eich croesau. Gochelwch rhag celu pethau pwysig oddiwrth eich gilydd, oblegyd gall hyny esgor ar ganlyniadau annymunol a drwg-dybiau peryglus. Pe codai annealldwriaethau bychain rhyngoch, gwnewch hwynt yn destynau gweddi, ac nid i aflonyddu eich gilydd yn eu cylch. Bydded eich mynwesau eich hunain yn ystorfeydd o'ch *secrets* eich hunain, a bydded iddynt aros yno fel mewn cell haiarn. Dygwch oddiamgylch ddedwyddwch eich gilydd trwy feithrin tymher gariadus, hael, maddeugar, a serchog. Astudiwch neillduolion eich gilydd, ac ymdrechwch gyfarfod â hwynt, a chydymddwyn â'ch gilydd. Na ddysgwyliwch ormod oddiwrth eich gilydd, na gormod oddiwrth eich cyfeillion, fel na fyddoch i gael eich siomi. Cymmedrolwch eich dysgwyliadau am ddedwyddwch yn y bywyd presenol, ond mor bell ag y byddoch yn ei gael oddiwrth gymdeithas agos â Duw. Y mae hyn yn gofyn llawer o wyliadwriaeth, hunan-ymwadiad, gostyngeiddrwydd, a gweddi ddwys. Os byddwch annghymmeradwy gan, neu os bydd i chwi dristâu Yspryd Duw, bydd i'ch gweddiau a'ch gofidiau amlhau, a'ch cyssuron ysprydol leihau. Byddwch ofalus rhag cael eich cario

ymaith gan yspryd a dylanwadau drwg y byd. Na fydded eich anrhydedd yn gynnwysedig mewn ymddangosiadau, ond mewn gwneyd daioni. Anrhydeddwch yr Arglwydd â ffrwyth cyntaf eich cynnydd, fel byddo i'ch ysguboriau gael eu llanw â digonedd, a'ch gwinllanoedd i ymdori gan win newydd; felly y bydd i'ch corn gael ei ddyrchafu, a'ch hâd gael ei fendithio. Gwrteithiwch a meithrinwch gyfeillach a rhan yn ngweddiau eich cyfeillion, a bydded y cyfryw yn ddynion o gymmeriadau da—yn ddynion cydwybodol a gwir Gristionogol. Bydded i weinidogaeth y Gair gael ei gynnorthwyo genych yn gydraddol i'r hyn y mae y Tad nefol wedi eich llwyddo. Gwnewch eich hunain yn aelodau defnyddiol yn yr eglwys o'r hon ydych yn aelodau; nid yn eiddigeddus o'ch anrhydedd eich hunain, ond o eiddo ereill, yn dduwiol, yn cymmeryd rhan, ac yn gwrando yn astud ar y gwasanaeth yn nhŷ Dduw, a chalonogwch, cydymdeimlwch, a chynnorthwywch eich gweinidog mewn pob ymgais i wneyd daioni. Na fydded i ddim roddi tramgwydd i chwi ond yr hyn all fod yn elynol i achos Crist. Bydded i gynnildeb megys osod i lawr sylfaen er ewyllys da, a mudiadau haelionus a bendithiol i'r byd, a bydded i'ch caredigrwydd a'ch llettygarwch amlygu eu hunain yn fwy trwy eich sirioldeb a'ch ewyllys da, nâ maint eich rhoddion materol. Cofiwch mai llafur a gofal priodol ydyw achosion llwyddiant. Nid yw yn un sarhad a dianrhydedd i fod ar waith, ac helaethu yn mhob gwaith da ac anrhydeddus yn wastadol. Y mae cynghorwyr, barnwyr, a gweinidogion yr ystâd yn llawn gwaith bob amser, ac yn gwneyd eu hunain yn agored i lawer o golliadau, i'r dyben o gwmpasu eu hamcanion. Y mae seguryd a diogi yn achosion o bechod yn gystal â thlodi; y maent, gan hyny, i gael eu gochelyd fel achosion ffrwythlawn o euogrwydd, o anair, a gwarth, a gwae. Talwch sylw priodol i weddi deuluaidd, ond na fydded rhy hir a ffurfiol, fel ag i flino naill ai eich hunain neu eich gwasanaethyddion a'ch cydnabod.

Yn olaf, goddefwch i mi daer erfyn arnoch i dalu sylw dyladwy i'ch crefydd bersonol. Os bydd i hon golli ei dylanwad iachusol a chadwwedigol arnoch, bydd i bobpeth droi allan yn fethiant. Bydd i gymundeb agos â Duw, tymher ysprydol, a'r arferiad parhaus o rasusau yr yspryd, ddylanwadu er gwell, mewn modd rhyfeddol dda, ar y gydwybod, i'w chadw yn bur, yn lân, a dihalogedig; ceidw y dymher yn dawel, y meddwl rhag ymserchu yn ormodol yn y byd, symmuda ymaith ofidiau, a galluoga chwi i fwyhau a chynnyddu eich bendithion, ac felly, mewn gwahanol ffyrdd, i ddwyn oddiamgylch yr uniad o'ch serch a'ch ymddiried, eich defnyddioldeb a'ch dedwyddwch, a dyma'r amcan mawr sydd gyda ni mewn golwg i'w gwmpasu yn yr ychydig linellau anmherffaith uchod.

C. L.

Pan ysgrifenodd Philip o Macedon gynt at Ephoriaid Sparta, "*Os deuaf i fewn i Laconia, gwnaf Lacedaemon yn gydwastad â'r llawr,*" derbyniodd yn ateb y llythyr byraf a mwyaf cynnwysfawr, feallai, â ysgrifenwyd erioed—yr un gair bach awgrymiadol, "*Os.*"

ENGLYNION

I Mr. Henry Howell, Photographer, Caerfyrddin.

Un dien ei wawr, dyn y Werin,—yw
H. Howell, Caerfyrddin ;
Nid yw'n brawd o glod yn brin,
Haedda wobrau yn ddibrin.

Pa ryfedd hyn ? prawf o'i ddoniau,—yw gwawr
Ei gywrain ardebau ;
Ni thŷn gwŷr pybyr ein pau
Fyth ar lên fath arluniau.

Hynod o fwyn ydyw fel—ei hen gâr
Heini gynt, John Howel ;*
Un da yw â'i wên dawel
Am lethu ffug, am lith ffel.

Eiddunwn ei ddaioni,—am a wnaeth
Mae'n iawn ei glodfori ;
Duw fo'i nawdd ; anhawdd ini
I gael ei fath, goeliaf fi.

DEWI HEFIN.

CYMMANFA FLYNYDDOL Y MEDDYGON YN NGHAERDYDD.

DYLAI y ffaith fod y meddyg yn aelod mor bwysig o gymdeithas, a'i wasanaeth mor angenrheidiol, beru i ni deimlo dyddordeb yn ei symmudiadau. Oddiar amser Esculap a Celsus a Gregory hyd yn awr, y mae llais y meddyg yn un a fynych groesawir genym, ac yn enwedig pan fo rhyw ran o'r babell yr ydym yn byw ynddo wedi myned allan o drefn. Cynnaliwyd y Gymmanfa fawr uchod ychydig wythnosau yn ol, a bu llawer pwnc pwysig yn dal cyssylltiad â hawddfyd ein dynoliaeth dan sylw y presenolion, a chawsom gyfleu i ddeall peth yn nghylch yr hyn a wyddent, a pheth hefyd yn nghylch yr hyn y cyffesent eu hanwybodaeth am dano. Mae cynnydd mawr wedi ei wneuthur yn y gelfyddyd feddygol ; ond, etto, mewn llawer cyfeiriad, yr ydys yn gweithio ar antur hollol. Trueni mawr fod cymmaint o *sectariaeth* yn mhlith y meddygon. Nid oes dim ond y drwg i'w ddysgwyl oddiwrth yr yspryd sectol nad pa un ai cawn mewn duwinyddiaeth ynte mewn meddygaeth. Nis gallwn weled paham na ddylai yr holl sectau

---

* Glandyfroedd, casglwr Blodau Dyfed.

meddygol—ac yn enwedig y cyfryw hyny ag ydynt wedi cael *training* priodol, gan fod ganddynt yr un amcan mawr mewn golwg,—gwrdd ar yr un llwyfan, a chymharu *notes* â'u gilydd—*allopath*, *homœopath*, a *hydropath*. Mae yn ddiamheu y gallai hyny fod er helaethiad gwybodaeth pob sect, ac er hyrwyddiad yr amcan mawr—lles dyn. Cyfaddefid yn Nghaerdydd mae ychydig sylw a delid yn yr Yspyttai i'r

PA BETH A FWYTAWN,

ac etto, y mae hyny yn dal cyssylltiad agos ag iechyd dyn. Cynghori mae y mae y meddyg ieuanc—*fresh from college*—i'r claf gymmeryd y peth y mae efe ei hunan yn ei leicio—os bydd efe yn leicio cig moch a chabbage, yna, mae y claf i gael cig moch a chabbage; os bydd yn leicio *roast beef*, mae y claf i gael *roast beef*; os bydd yn leicio gwydraid o borter a chwiff o dybaco, mae y claf yn cael yr un peth. Neu ynte y cynghor fydd, feallai, a dyma yw fynychaf, dim ots beth, cymmerwch beth a fynoch. Ond nid yw hon yn athrawiaeth iachus meddai'r awdurdodau heddyw. Mae gofalu am y *diet* yn beth pwysig i sicrhau iechyd. Felly y dywedai yr *hydropath* ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Gofalwch am fwyd iachus, hawdd ei dreulio, ac amrywiaeth o hono. Blawd ceirch, nid oes dim gwell bwyd, gyda digon o laeth. Bwyd natur i'r baban yw llaeth, ac fe wyr natur beth yw y bwyd goreu. Nid yw y ffarmwr yn rhoi gwair i'r llo bach, a ffwl yw y fam sydd yn ceisio codi plentyn heb laeth, a digon o hono. Bara canolig i gynnal iechyd yw y bara gwyn a ddefnyddir genym yn awr, mae rhan angenrheidiol o hono wedi ei dynu ymaith. Ni fyddai danedd y 19eg cynrif cynddrwg ag ydynt, pe byddem yn bwyta mwy o'r "bara trwyddo"—yr *whole meal wheat bread*. Gwell yw cig ffres na chig sych, ac yn enwedig i gleifion. Ac am y *beef tea* a feddylir cymmaint am dano, nid yw yn cynnwys holl rinwedd y cig; mae y rhan fwyaf rinweddol o hwnw, fynychaf, yn cael ei daflu i ffwrdd. Nid yw yn yn ddigon, fodd bynag, i wybod fod bwyd yn faethlon, dylem wybod a yw yn faethlon i ni, a allwn ni ei dreulio. Ni chyrhaedda bwyd ei amcan oni all yr ystymog ei dreulio. Dyna un rheswm paham y mae ŵy yn fwyd mor rhagorol, mae yn hawdd ei dreulio. Nid *bwyta* bwyd sydd yn cynnal y corff, rhaid ei dreulio, ei droi yn waed. Ac mewn perthynas i'r

PA BETH A YFWN,

mynid fod *alcohol* yn werthfawr. Ar hyny, dymunwn ddywedyd yfwch laeth gyfeillion, cynnwysa yr holl elfenau angenrheidiol at gynnaliaeth, a'r yfed goreu ar ol llaeth yw dwfr glân; ond os rhaid wrth yr *alcohol*, awn ni ddim i *ddisputio* â'r meddygon. Defnyddier ef, os rhaid, fel meddyginiaeth, ac nid fel bwyd. Nid bwyd mo hono. Defnyddier ef fel rhyw feddyginaeth arall gydag amcan pennodol, mewn *doses* pennodol, ar gyfnodau pennodol, dros amser pennodol—with a definite object, in definite quantities, at definite periods, and for a definite time. Pan gynghorir rhyw *drug* arall, gwneir hyny wrth

fesur a thros amser pennodol. Ynfydrwydd yw tybied oblegyd fod gwydraid o grog yn dda at y gwayw, fod pedwar yn well, a bod yn rhaid parhau ei gymmeryd o hyd. Mae llawer o feddwdod ac afiechyd yr oes yn gorwedd wrth ddrws y meddygon o herwydd eu dyofalwch yn y cyfeiriad yma. Rhy esgeulus hefyd yw y meddyg gwledig yn mherthynas i'r *diagnosis*. Nid yw yn gyfiawn ynddo i *brescribo alcohol* heb ystyriaeth gyflawn o'r canlyniad i'r person ei hunan; ac os yw y person yn deilliaw o deulu wedi eu dinystrio gan y *king alcohol*, ddylai y meddyg ddim cynghori *alcohol* o gwbl. A sylwer yn fanwl ar hyn: Nid oes eisieu *alcohol* ar ddyn iach. Peidiwch cyffwrdd ag ef bobl ieuainc; ac os bydd y doctor yn ei gynghori i chwi mewn afiechyd, bydd yn fwy tebyg o wneuthur lles i chwi wedi'n na phe buasech yn rhy gyfarwydd ag ef yn flaenorol.

Nid dyben y llinellau yma yw rhoddi crynodeb o weithrediadau y gymmanfa uchod yn gymmaint ag i wneuthur y cyfryw weithrediadau yn *beg* i hongian ychydig sylwadau a dybiwn yn llesiol i'n darllenwyr eu gwybod. Dylid cofio ei bod mor bwysig pwnc i wybod y ffordd i gadw mewn iechyd ag yw i sicrhau iechyd wedi ei golli; ac y mae yr amser i ddyfod etto pan y teimlwn mor ddiolchgar i'r meddyg am egluro deddfau iechyd ini ag y teimlwn yn awr am ei ddrugs i symmud afiechyd i ffwrdd. Mae gwerth y meddyg yn llawn cymmaint hefyd pan gynghoro, ar rai adegau, i ochelyd pob *drugs*, a cheisio ymgydnabyddu ag awyr y mynydd neu y mor, a phe byddai yn rhoddi potelaid o foddion cryf i ni. Helpu natur yw gwaith y meddyg. Gadawer iddo gael ei ffordd ei hunan i wneuthur hyny. Natur, mewn gair, sydd yn meddyginiaethu yn y pen draw. Mae llawer gormod o gymmeryd *drugs* yn bod, er fod llai nag sydd wedi bod. Ac y mae llawer rhy fach o ddefnyddio ar

YR ELFEN DDYFROL,

yn allanol a mewnol. Mae rhyw *hydrophobia* ffol—rhyw ofn dwfr ar ddynion nas gellir yn hawdd ei egluro. Clywsom am un unwaith yn dywedyd nad oedd yn yfed dwfr am ei fod yn ffansio fod blas y creaduriaid foddwyd yn amser diluw Noah etto yn aros ynddo; ond nid dyma, dybygwn, yw yr achos mwyaf cyffredin. Mae yr archwaeth at ddwfr glân wedi ei lygru gan yr arferiad niweidiol o yfed mwy na mwy o'r diodydd meddwol. Paham na wnai dyn fwynhau dracht o ddwfr iachus pan fyddo syched arno, fel y gwna'r anifail?" Clywn *echo* yn ateb, "Paham" yn wir! Mae genym yn y dwfr elfen feddyginiaethol mwy grymus nag y mae nemawr o'r meddygon etto wedi freuddwydio. Fe wyr llawer meddyg ieuanc beth yw mwynhau *cold bath* wrth godi y boreu, ac mor hyfryd ydyw cael *dip* yn y môr yn amser haf. Mae yr hyn sydd felly yn hyfryd hefyd yn iachusol. Llawer pen tost, a llawer o fan wyniau, ydynt wedi eu gadael o bryd i bryd yn y *bath*. Mae tyllau y chwys yn galw am eu golchi yn aml. Maent fel carthffosydd (*drains*) ein trefydd—yn barhaus yn trosglwyddo o'r corff yr hyn sydd yn niweidiol i'r iechyd, ac a ddylai gael ei olchi i bant oddiar y croen yn rheol-

aidd. Achos hanner yr heintiau y blinir dynoliaeth â hwynt yw budreddi—budreddi sydd felly trwy y drygau cyssylltiol ag ef yn galw yn daer am ei symmud i ffwrdd. Brooke Herford ddarfu gyhoeddi, rai blynyddau yn ol, draethodyn bychan, yn dwyn yr enw awgrymiadol, "God's Judgment on Dirt." Y baw yw achos llawer mwy nâ hanner marwolaethau y byd. O herwydd byw yn eu baw, y mae yr Yspaenwyr yn cael eu tori i lawr gan y *cholera* y dyddiau hyn. Dyma hefyd ydyw achos y *typhoid* a'r *typhus*, y frech wen, y frech goch, a'r dwymyn goch, y *croup*, a'r *dipththeria*, &c., &c. Gwelir felly mor bwysig ydyw ceisio cael gwared o'r baw.

T. L. R.

HEN AELWYD FY NHAD.

ALAW—"ROBYN YN SWIL."

Mewn ardal estronol 'rwyf heddyw yn byw,
Fy mron yn alarus, a 'ngwyneb yn wyw,
Er fod genyf ddigon o gyfoeth y byd,
A digon o'm deutu i ddyfyru fy mryd.
Ar aelwyd fy nhad—
Hen aelwyd fy nhad,
Ce's fil o fendithion ar aelwyd fy nhad.

'Rwy'n cofio y teulu yn fyw ac yn iach,
A minau ar gliniau fy mam yn un bach,
Yn dysgu rhyw ganu yn llawen fy mryd,
Neu wrando rhyw stori yn glustiau i gyd.
Ar aelwyd fy nhad—
Hen aelwyd fy nhad,
Paradwys y ddaear oedd aelwyd fy nhad.

'Rwy'n cofio mwynderau boreuddydd fy oes
Pan nad oedd na gofal na gofid na chroes,
Ond myned a dyfod dan ofal fy mam,
Heb ofni na meddwl am gwrddyd un cam.
Ar aelwyd fy nhad—
Hen aelwyd fy nhad,
Ce's lawer o bleser ar aelwyd fy nhad.

Fan hono y clywais i gyntaf erioed
Am nefoedd ac uffern, a Cheidwad yn bod,
Am Bethl'em a'r stabal, a chariad fy Nuw,
Am obaith cael myned i'r nefoedd i fyw.
Ar aelwyd fy nhad—
Hen aelwyd fy nhad,
Rhyw nefoedd fwynhawyd ar aelwyd fy nhad.

Y teulu wasgarwyd, fy nhad aeth i'r bedd,
Y byd oll ar unwaith newidiodd ei wedd;
Daeth drygfyd a blinder ar ddinas a gwlad
Pan chwalwyd pleserau hen aelwyd fy nhad.
Ar aelwyd fy nhad—
Hen aelwyd fy nhad,
Ce's fil o bleserau ar aelwyd fy nhad.

Mae aelwyd well etto uwch gafael y byd,
A'r Tad yn y nefoedd a'i gartref mwy clyd,
A'i enw ar lyfr y teulu a gawd;
Mi sydd yn amddifad, mae'r Iesu yn frawd.
Ar aelwyd y nef—
Hardd aelwyd y nef,
Mae'n dysgwyl am danaf ar aelwyd y nef.

(ANAD.)

[Cyhoeddir yr uchod ar ddymuniad cyfaill.—GOL.]

CREDINIAETHAU AC OPINIYNAU UNDODWR.

Deallwn fod y Parch. S. F. Williams, Birmingham, wedi cyhoeddi cyfrol yn ddiweddar trwy gyfrwng y Gymdeithas Dramor a Phrydeinig yr Undodiaid, ac fod y gyfryw wedi cael ei hadolygu mewn modd ffafriol iawn yn y *Liverpool Mercury*. Yn y cyfryw adolygiad, dywed y papyr hwn :—" Y mae yn rhaid i ni ystyried yr awdwr, yr hwn oedd yn weinidog crefydd yn ddiweddar yn y ddinas hon, a'r hwn sydd yn bresenol yn weinidog yn Birmingham, fel un o'r esponwyr mwyaf galluog o Undodiaeth yn y wlad hon. Y mae ei bennod ddiweddol, ar yr hyn y mae Undodiaeth wedi wneyd i'r bobl, yn gyflawn o syndodau y gall llawer o Efengylwyr eu cymmeryd dan sylw, ac at eu calonau. Yr ydym ni yn gwahaniaethu yn gyfangwbl oddiwrth yr awdwr yn ei opiniynau duwinyddol; ond ni allwn amheu gwasanaeth Undodiaeth i ryddid meddyliol—a mwy, cydnabyddwn y cyfryw gyda thegwch a diolchgarwch, tra nas gall fod yr un amheuaeth o gwbl i ddyfynu geiriau y llyfr yma ar fod Undodiaeth wedi bod yn enaid o burdeb a chyfiawnder i'r person unigol yn gystal a gweithred lesiol i'r bobl. Pan y mae Mr. Williams yn alluog i hawlio John Pounds (Portsmouth), Mary Carpenter, Florence Nightingale, Dorothea L. Dix, a Joseph Tuckerman, fel ffrwythau dylanwadau Undodaidd, ofer fydd gwadu gallu y ffydd ddaliodd y fath bersonau i achosi, yn ymarferol, y fath fywydau Cristionogol. Cymmeradwyir pawb sydd yn dymuno meddu, mewn ffurf gyfleus, fraslun o Undodiaeth ddiweddar, i sicrhau iddynt eu hunain y gyfrol hon." C. L.

SEFYLLFA GREFYDDOL CYMRU CYN CHARLES O'R BALA.

Yn hanes bywyd Robert Raikes, y mae darlun bychan, yn yr hwn y dangosir Raikes yn cael golwg sut mae lot o blant yn treulio eu Sul yn un o heolydd Gloucester, ac odditano y geiriau: "Y graig o'r hon eu naddwyd." Ar yr ochr ddeheu i'r darlun, mae dau hogyn yn ymladd, gerllaw amryw ereill yn edrych arnynt, ac yn ymyl Raikes y mae un—darlun o *impudence* perffaith—yn ymddangos fel pe bai yn dywedyd: "Isn't that jolly fun?" Golwg drist a meddylgar sydd ar Raikes, ac fel pe'n dywedyd wrtho'i hun: "Yr wyf yn rhwym o gynllunio rhywbeth i arwain diwydrwydd y plant yma i lwybr amgenach." Dyna adeg genedigaeth y gwewyr yspryd—yr *enthusiasm*—a esgorodd ar waith mawr bywyd Raikes i geisio y plant allan o afael y llygredigaeth oedd eu rhieni yn byw ynddo.

Nid oedd sefyllfa pethau yn Nghymru yn anhebyg iawn i'r hyn oedd y sefyllfa yn Lloegr, ac y mae deffroad Charles yn debyg i ddeffroad Raikes.

> "There is a tide in the affairs of men
> Which taken at the flood leads on to fortune."

Yr oedd yr amser yn addfed, yr oedd ar Ragluniaeth angen dyn at y gwaith, ac y mae'r dyn yn cael ei ddarparu ganddo. Y mae'r dyn mawr mewn ystyr yn cael ei ffurfio gan Ragluniaeth trwy offerynoliaeth yr amgylchiadau, ac o dan Ragluniaeth yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio'r amgylchiadau yn nghyflawniad yr amcan mawr.

Nid ar unwaith, fodd bynag, yr addfe lo ld yr amgylchiadau. Megys cyn Luther, yr oedd llawer canwyll ddiwygiadol wedi goleuo—Wycliff, Savonarola, Huss a Jerome, a llu ereill; felly, cyn Raikes a Charles, yr oedd llawer i ddyn wedi bod yn gweithio gyda mwy neu lai o lwyddiant mewn maesydd amngwrteithiedig, ond nid oedd y canwyllau bychain yn menu llawer i wasgar y tywyllwch mawr. Nid oes un ymdrech mewn daioni, fodd bynag, yn ofer; ac y mae cynnulliad y pelydrau yn raddol yn casglu nerth. Mae y pelydrau yn dyfod o wahanol gyfeiriadau, a phob peth yn arwyddo fod amser gwell yn neshau.

Ymddengys rhywbeth tebyg iawn i drai a llanw yn yr yspryd crefyddol. Mae yn gofyn llawer o ffydd weithiau i gynnal y gwaith da yn y blaen; ond pan fo'r trai iselaf, dylid credu fod y llanw yn sicr o dd'od. Awr dywylla'r nos yw yr un cyn toriad y wawr. Cyfnod tywyll ar grefydd oedd hi pan ddechreuodd Luther; felly hefyd pan ddechreuodd Raikes a Charles. Dywedir fod diofalwch o bethau crefyddol wedi llwyr feddiannu mwyafrif arweinwyr y bobl yn yr eglwysi a'r capeli yn ogystal; yr oedd y canlyniad yn naturiol—like priest, like people—anwybodaeth cyffredinol, ofergoeliaeth cyffredinol, a phechod o bob math. Dyma'r adeg yr oedd yr ysprydion yn eu rhwysg a'u rhod. Nid oedd John Wesley ac Edmund Jones, Pontypwl, uwchlaw credu ynddynt. Dyma'r adeg y credid yn gyffredinol

yn y tylwyth teg, hud a lledrith, canwyllau cyrff, y cyhiraeth, cwn wybr, cwn annwn, ac y treulid oriau hirion y gauafnos i adrodd ystoriau am danynt, nes peru gwallt llawer i sefyll yn syth, a'u rhwystro i groesi trothwy y drws wedi nos rhag braw. Amser poblogaidd oedd hwn ar y bel, y delyn a'r dawns, a llawer math o wrol-gampau; ymladd ceiliogod, rhedegfeydd ac ymladdfeydd, gwyliau mabsant, &c.

Yr oedd y parch i fywyd hefyd yn isel yn ngolwg y wladwriaeth, ac yn ngolwg y werin; a chrogid dyn am ddwyn dafad, ac am ddegau o droseddau cyffelyb. Yr oedd yn beth cyffredin i weled deg neu bymtheg ar y grogbren yn Llundain yr un pryd.

Nid oedd yr adfywiad allan o dywyllwch yr anwybodaeth hwn yn Nghymru, wrth bob tebyg, ond rhan o'r adfywiad mawr oedd yn pasio dros Ewrop tua'r amser yma, ac a adweinir weithiau fel y *Renascence.*

Fe welir olion yn ein llenyddiaeth ni o'r mudiad mawr hwn. Gwrandawer ei sŵn mewn hen bennill heibio cant oed:—

"Nid gwiw i feibion trais
Ymgodi'n groch eu llais,
Fel tonau'r môr, tua'th deyrnas hir;
Ni thycia llidiog fryd
Holl draws drigolion byd,
Fel tonau torant wrth y tir."—*D. Llwyd.*

Ymddangosai mewn amryw ffurfiau, ond oll yn cynnwys y syniad o werth bywyd. Y waedd, am ryddid oedd, am gyfiawnder a chwareu teg. *Rights of Man*, neu 'Freiniau Dyn' oedd pwnc un o lyfrau goreu Tom Paine; a'r *Rights of Man* oedd pwnc pwysicaf ysgrifeniadau Rousseau, Volney a Voltaire, ac a derfynodd yn Ffrainc yn chwyldroad mawr 1789, a dinystr y Bastille. Rhyddid penrhydd yw rhyddid o'r fath, er fod rhai gyda ni ar y pryd yn edrych gyda llygad cymmeradwyol arno. Fel hyn y mae Dafis Castell Hywel yn canu:—

"Ffrainc ar y fainc hir a fydd,—yn hynod
Frenines y gwledydd;
'Hed myrddiynau'u rhwymau'n rhydd,
O dan ei mwyn adenydd.

"Caiff caethion deillion o dywyllwch,—olwg
Ar haulwen dyddanwch;
Daw dyddiau llawn dedwyddwch
Ar waelion llwydion y llwch."

Dyna'n ddiamheu oedd y dysgwyliad cyffredin, ond ni fu erioed gamsyniad mwy. "Fy hawl i fi" oedd yr arwyddair a'r ysbryd oedd yn gweithio; ac nid oedd hyny ond anfoddlonrwydd gyda phethau fel y maent a dymuniad am eu cyfnewid—dymuniad am symmud ymaith un math o ormes, ac yna, mewn anwybodaeth, gosod math arall yn ei le. Ni seilir cymdeithas yn ddyogel byth ar egwyddor gyfyngedig Voltaire—'Breiniau Dyn;' gwell eiddo Mazzini—'Dyledswyddau Dyn.' Dyna yw Cristionogaeth hefyd; cofio am arall yn ogystal ag am ei hunan.

Sylwer yn nghysgod y mudiad mawr yn Rhydychain dan arweiniad Whitfield a'r ddau Wesley, John a Charles, y modd y mae dylanwadau bendigedig yn codi mewn gwahanol ffurfiau—sefydliad yr Ysgolion Sul gan Raikes a Charles—yr ymdrechion ar ran gweithwyr ffermydd gan Hannah More—y cydymdeimlad â'r anffortunus a'r gormesedig yn mhob cyfeiriad—gwaedd Burke ar ran yr Hindŵaid—Clarkson a Wilberforce yn erbyn y gaethfasnach—sefydliad yspyttai—cenadaethau at y paganiaid—gwaith John Howard mewn cyssylltiad â'r carchardai. Ffrwyth yr un yspryd ydyw'r oll, a'r oll yn cael el gynhyrfu gan yr un teimlad—fod gan ddyn enaid, a bod hwnw yn werth ei achub.

Sylwer hefyd fel y mae y mudiad yn Nghymru yn rhedeg megys ochr yn ochr â'r un yn Lloegr. Caffed yr enwau awgrymu'r hanes—Griffith Jones, Llanddowror, a Madam Bevan—coffa da am danynt. Gwnaethant waith bendigedig: Rowlands a Harries, Charles a Hughes, a Williams, Pantycelyn, &c. Yn y mudiad Seisnig, Charles Wesley oedd yr emynydd mwyaf, ac yn y mudiad Cymreig, "Wil biodd y gân," sef Pantycelyn.

Mewn perthynas i'r ddadl mae Dr. Rees wedi godi, fel hyn y byddwn i yn credu; fod gweithwyr da a ffyddlon yn y maes yn barod. Wrth gwrs hyny, a chamsynied wna rhai Methodistiaid wrth hawlio'r *credit* i gyd iddynt eu hunain; ond yr oedd y maesydd yn wynion, a'r cynauaf, yn wir, yn rhy fawr i ateb y gweithwyr oedd yn y maes. Nid oes eisieu dibrisio gwaith un dyn da. Yr oedd help yr oll yn angenrheidiol i addfedu'r cynauaf. Gwir fod Ysgolion Sul cyn Charles, ond can wired a hyny taw Charles roddodd fywyd yn Ysgolion Sul Cymru. Nid wyf yn credu fod un ysgol yn awr yn Nghymru a all olrhain ei hanes yn ol yn ddidor y tucefn i ddyddiau Charles, er y gwyddom fod Ysgol Sul yn Hen Dy Cwrdd, Cefncoedycymmer, yn 1775.

Dan anfanteision mawrion yr oedd yr hen weithwyr ffyddlon yma i gyd yn gweithio; ond gan fod yspryd yn y gwaith, gorchfygid yr anhawsderau. Mor wahanol yw hi gyda ni! Dyma ni a digon o bob math o lyfrau genym, tra nad oedd ganddynt hwy ond ychydig, a'r ychydig hyny ond anmherffaith yn mhob ystyr. Y mae genym ni ddigon o Feiblau, tra nad oedd y pryd hwnw yn fynych ond un Beibl mewn plwyf cyfan. Dywed Hannah More na wyddai hi ond am un Beibl yn mhlwyf Cheddar, a bod hwnw yn cael ei ddefnyddio i bropio pot blodau. Elai Mary Jones, Abergynolwyn, ddwy filltir o ffordd bob wythnos am chwe' mlynedd, er mwyn cael golwg ar y trysor gwerthfawr yn yr unig fan ag oedd o fewn cyrhaedd iddi (gwel *Sunday Schools in Wales* gan D. Evans, Gelligaer, p. 297). Ac am y capeli, gwrandawer Kilsby (*Y Gennen*, Ion. 1885):—"Er mwyn dangos mor ddiaddurn oedd rhai o'r capeli cyntaf y bu teidiau Annghydffurfiaeth yn addoli ynddynt, gwasanaethed fel esiampl y canlynol:—Tô yr adeilad, rhedyn; y drws, gwiail plethedig, ac yn troi ar ei golyn; ffenestri, o wisg ebol bach! Pw, pw, 'Beth yw yr us at

y gwenith?' Nid amgen na 'thŷ i Dduw, a phorth y nefoedd' y profodd ugeiniau mewn amserau enbydus y bwthyn llwyd hwn wrth droed y mynydd."

Feallai nad yw geiriau y "Ficer" ddim yn wir am danom ni heddyw:—

"Pob merch tincer gyda'r Saeson
Fedr ddarllen llyfrau mawrion,
Ni wyr merched llawer scweier
Gyda ninau ddarllen pader."

Mae lle i ofni, fodd bynag, na feddwn ni, nemawr o honom, ddim o hanner y ffyddlondeb a'r ymroddgarwch i ddyledswydd a feddid gan yr hen dduwiolion hyny a ddarfu, trwy eu chwys a'u gwaed, ennill i ni ein hetifeddiaeth deg o ryddid gwladol a manteision crefyddol. Deuparth eu hyspryd fyddo yn eiddo i ni eu plant. T. C. U.

FFYDD YR EGLWYS GYFFREDINOL *(UNIVERSALIST FAITH).*

1. Y mae y Cyffredinolwyr yn credu mewn un Duw—nid Trindod o Dduwiau.

2. Credant fod Duw yn Dad dynolryw, ac, o ganlyniad, mai ei blant yw pawb, ac na all na bywyd na marwolaeth, amser na thragwyddoldeb ysgaru y berthynas hono.

3. Credant fod Duw yn dda, yn drugarog, yn gyfiawn i bawb, ac y bydd felly byth.

4. Credant mai Duw yw llywodraethwr y greadigaeth, fod pawb dynion yn gyfrifol i'w gyfraith. Os gwnant yn dda, cànt eu gwobrwyo, os yn ddrwg, eu cospi; ond na fydd iddo Ef eu poeni yn dragwyddol am bechodau y bywyd byr presenol.

5. Credant fod iachawdwriaeth trwy ffydd a gweithredoedd—nid gweithredoedd Iuddewaidd y gyfraith, ond trwy weithredoedd Cristionogol.

6. Credant fod iachawdwriaeth yn gynnwysedig mewn rhyddhad oddiwrth bechod, nid oddiwrth uffern annherfynol, neu lid Duw, yr hwn sydd gariad.

7. Credant y dylai dynion garu Duw o herwydd ei fod Ef yn eu caru hwy; bod yn eirwir o gariad at wirionedd; yn gyfiawn a gonest o gariad at gyfiawnder a gonestrwydd—nid oblegyd ofn tragwyddol wae.

8. Credant y myn Duw fod pawb dynion yn gadwedig, a chan Ei fod yn annghyfnewidiol, mai hyny fydd Ei ewyllys; ac, o ganlyniad, na fydd iddo gau i fyny filiynau yn uffern dros byth. Rhaid i Dduw gyfnewid yn gyntaf, ond y mae hyny yn anmhossibl.

9. Credant fod y Beibl yn cynnwys cofiant neu dystiolaeth o ddatguddiad Duw i ddyn; nid fod pob gair o'r cyfryw yn ddatguddiad Duw.

10. Credant hefyd fod Duw yn datguddio ei hunan yn bresenol trwy ddyn, a thrwy holl natur.

11. Credant mai Mab Duw ac Iachawdwr y byd ydyw yr Iesu.

12. Credant fod dyn yn ei natur hanfodol yn ol y ddelw ddwyfol, a phan y bydd y ty y mae yn byw ynddo yn bresenol yn dychwelyd i lwch, ei fod yn dychwelyd at Dduw. Dychwelyd i'r pridd yw marwolaeth, dychwelyd at Dduw yw adgyfodiad. Y mae y ddaear yn hawlio yr eiddo ei hun; y mae y nefoedd yn hawlio yr eiddo ei hun hefyd.

13. Credant fod yn y nefoedd "lawer o drigfanau," ac fod pob dyn yn myned i'w le ei hun. Fel y mae y lloer a'r ser yn amrywio mewn gogoniant, felly gyda golwg ar ddynolryw yn y "llawer o drigfanau," ac fod y gwahaniaethau yma yn ganlyniad yno oddiwrth y bywyd fyddo yn cael ei fyw yma.

14. Credant fod yr olwg hon o ganlyniadau ein bywyd daearol yn tueddu i beru i ddynion fyw yn gyfiawn, yn dduwiol, a dwyfol.

15. Credant fod dynion yn cael eu llygru trwy ymarferiad, nid trwy natur, ac fod daioni yn yr oll.

16. Credant y bydd, yn y diwedd, i lygredd roddi ffordd i burdeb, pechod i sancteiddrwydd, cyfeiliornad i wirionedd, condemniad i iachawdwriaeth, marwolaeth i fywyd, uffern i'r nefoedd, a bydd Duw oll yn oll.

17. Credant fod dynion yn awr yn rhydd cwyllyswyr, ac y byddant yn oruchwylwyr rhydd.

18. Credant fod Duw yn galw ar bawb yn bresenol, ac y bydd iddo fyth alw pawb i ddyfod i fyny yn uwch, uwch, uwch, ac y dylai pawb gredu yn uwch, gweithredu yn uwch, byw yn uwch—bod yn fwy tebyg i Grist mewn yspryd a chymmeriad.

19. Credant y bydd i bawb, yn y diwedd, i dalu sylw i'r gorchymyn dwyfol, a cherdded yn ffyrdd iachawdwriaeth.

20. Credant y dylai pawb fod yn Gristionogion bob dydd o'r wythnos, ac yn holl alwadau a pherthynasau bywyd; fod yn dadau, yn famau, yn wyr, gwragedd, yn chwiorydd, cymmydogion, dinaswyr Cristionogol; y dylai pawb fod yn bregethwyr Cristionogol, ie, hyd y nod cyfreithwyr, meddygon, masnachwyr, amaethwyr, gweithwyr, gwasanaethwyr, &c. Dyma swm a sylwedd eu ffydd; ac onid yw hyn yn Gristionogol, yn rhesymol, ac athronyddol? Astudiwch hi, credwch hi, dylynwch hi, a bydd i Dduw eich bendithio yn bresenol a thros fyth. L.

Mae y Frenines wedi cyflwyno *Albert Medal* o'r ail ddosparth i'r meddyg Thomson o Tyrone am beryglu ei einioes i achub bywyd plentyn rhag y *diphtheria*. Y milwyr, fynychaf, am ladd, sydd yn cael *medals*. Da genym gofnodi yr enghraifft yma o wobrwyo am achub bywyd.

NODYNAU GWASGAROG.

PANTYCREUDDIN.

Y MAE ambell i ddiwrnod o wyliau yn rhoddi cyfleusdra i lawer o bethau, i un mewn un cyfeiriad, i arall mewn cyfeiriad arall. Rhoddodd Mehefin 29ain, 1885, y cyfleusdra i mi yn nghwmni y Parch. W. James, B.A., Llandyssul, i dalu ymweliad á'r hen fagwyren, lle bu'r hen gapel uchod unwaith yn sefyll, yr hen gapel o'r hwn yr aeth Llwynrhydowen a Horeb allan. Yma, yn ol Dr. Rees y tarddodd Arminiaeth, dan arweiniad y Parch. Jenkin Jones, wedi hyny o Lwynrhydowen, lle y sefydlwyd achos crefyddol yn 1726. Mae Dr. Rees yn rhoddi 1729 fel *date* y ddadl fawr. Saif Pantycreuddin bron yn ymyl Gellifaharen. Dywedir taw wedi pasio Deddf Goddefiad y cychwynwyd yr achos yno, a bod addohad yn arfer cael ei gynnal am ryw ddeng mlynedd cyn hyny ar Graig Wion, ac hefyd dan hen dderwen wrth Pantgwyn—dau le gerllaw Gellifaharen. Derbyniodd Craig Wion ei enw oddiwrth Gwion Lloyd, ail fab Llewelyn Lloyd, o Gastell Hywel, a sylfaenydd hen deulu y Llwydiaid o Laufechan. Mae y ddau bennill canlynol yn aros ar lafar gwlad :—

De'wch i lawr i Bantycreuddin,
Chwi gewch glywed pregeth Calfin,
Eben Jones yn gwaeddi maes
Nad oes dim gras i bobdyn.

Mae lot o adar llawen
Yn nytho yn Llwynrhydowen,
Ac mae nhw'n meddwl myn'd yn serth
I'r nef yn nerth eu huñen.

T. C. U.

Y BEIBL DIWYGIEDIG CYMREIG.

MAE y llythyr canlynol yn esponio ei hunan :—

"Secretary's Room, Clarendon Press,
"Oxford, July 17th, 1885.

"MY DEAR SIR,—I am desired by the delegates to thank you for your communication of June 26th, recommending the publication of a Welsh Version of the Revised Bible.

"The delegates are prepared to give the most careful consideration to the recommendation, being already publishers of the Authorized Version in Welsh. But it is a great undertaking, upon which they could not enter without the active co-operation of the Welsh churches. Could you supply us with any assurances on this point? If, for instance, the representative bodies of the various communions would pledge themselves to the adoption and, perhaps, co-operate in the translation, I think something might be done

"I should be glad to learn your views on this point, and to receive from you the names of Church and Nonconformist leaders who might be consulted.

"I am, yours truly,

"Rev. R. C. Jones, Lampeter. "P. LYTTLETON GELL."

Y PARCH. THOMAS MORGAN.

Ateb i'w gwestiynau mewn perthynas i'r rhai a chwarddent dan ei breyeth (yn Nghaerfyrddin).—Circiter, 1799, *mewn llaw ddiweddarach.*

[ALLAN O YSGRIFAU D.D., CASTELLNEDD.]

Pwy chwardd yn anhardd? Hyrddod.—Pa'm chwarddant?
Ni welant dy waelod?
Ond y neb sy'n dy 'nabod,
Ieithydd glew, sy'n adde'th glod.

Y rhagfarn gadarn gododd—o gulfarn
Hen Galfin a ddallodd;
O'i d'w'llwch nis deallodd
Araith f'ai gynt wrth ei fodd.

Da i Galfin fydd i gilfach,—Morgan
Am ergyd sydd lewach (ddewrach)
I gau dwrn dau gadarnach,
Fel hen gawr o * flaen y gwrach.—*D. D., Castell Hywel.*

D. DAVIS, CASTELL HYWEL.

[*Allan o ysgrifau D. D., Castellnedd.*]

"A translation of an epitaph from the *Spectator* (ending with this thought—what kind of man he was, that day will discover) into Welsh, at the request of David Mathias. || Thus attempted by D. D.—*Circiter*, 1798," mewn llaw ddiweddarach.

FIRST ATTEMPT.

Dafydd yma fydd difarn,—o'n golwg
Dan gêl hyd gywirfarn;
Ow wynfyd! ca'r byd iawnfarn
O'i dda a'i fai ddydd y farn.

SECOND ATTEMPT.

Mathias a gas, dan gêl,—mewn beddrod,
Ei osod yn isel;
Da tewi—ei fywyd tawel
Barn edrydd y dydd y del.

---

* Dealler Blaengwrach fel enw priodol lle, neu fod Thomas Morgan yn drech nâ Chalfin fel y mae hen gawr o flaen neu gyferbyn â gwrachau.

|| Y Parch. David Mathias, Curad Llanybyther.—(GOL.)

THIRD ATTEMPT.

Yn gydwedd gorwedd mewn gweryd—dau ddyn
Gyd-ddodwyd mewn mebyd;
Rhinweddau a beiau 'u bywyd
Gyhoedda barn ar g'oedd byd.—1797.

Communicated to me by letter, when student at Carmarthen.

(Gweler *Telyn Dewi*, argraffiad cyntaf, tud. 128; ail argraffiad, tud. 125. Gweler *Ymofynydd* 1884.

Y PARCH. TIMOTHY DAVIES, CAERONEN (1711—1771).

[*Allan o'i Ddyddiadur—Cyfieithad.*]

"Cyfrif o'r plant a fedyddiwyd genyf fi Rhag. 15, 1747. Mae y flwyddyn yn dechreu Mawrth 25.

1747

Rhagfyr	15, Benjamin mab Jn Evan, crydd, Llanvayr.
Ionawr	11, David John Dd, Cwmhowell, Llansawel.
	12, Jabes Jones, ganwyd yn Llundain, bedyddiwyd yn Nghaeronen.
	22, Mary Jn Willm Evan, Llancrwys.
Chwefror	12, Elizabeth David Wm, Lancwm, Llanvayr.
	15, Nathl John o'r Alt Kellan.
Mawrth	21, Jn Jn Evan Griff. Pencarreg, yn ci dy.

1748

Ebrill	3, David Evan Dd. Jn. Llanvayr fach yn Llanvayr.
	17, Joel Wm Joseph, Kilgwyn, Llangibby.
Mai	3, David Evan Dd Jenkin, Cysswch, Llanvayr, yn y ty. John John Rees, Velindre, Pencarreg.
	7, Anna Evan Willm Llanvayr Cledogau.
	20, Daniel Jenkin Hugh, Dolebach, Pencarreg.
Mehefin	6, Thos. Timothy Jacob, Goitre, Llangibby.*
Awst	5, Abel John Jenkin, Kellan.
Medi	17, Elizabeth Willm Saml. Cwmcoy—Kellan.
Hydref	12, John Evan Jn Morgan, Llanvayr.
	14, Thos. Lewis Jenkin, Pencarreg, yn y ty.

(I'w barhau.)

---

* Dyma Thomas Davies, wedi hyny o Bentre Sion, fel y cawn nodi yn mhellach etto.—GOL.

BRWYDRO A'R YSTORM.

"Diwrnod ofnadwy, gymmydog," ebe Balt.

"Y gwir ydych yn ddweyd, gymmydog," ebe Schoffer, "nid oes dim yn debyg iddo wedi bod oddiar yr ystorom fawr. Y nefoedd a dosturio wrthym!"

Felly y cyfarchodd y ddau gymmydog eu gilydd, tra'n llechu y tu cefn i'r creigiau ar lan yr afon, heb fod yn mhell o bentref Seckendorff, ar doriad gwawr y boreu gwyllt hwnw yn mis Mawrth, tra'r oedd corwynt o'r fath nas gallai neb byw gofio'i debyg, yn rhuo ac yn rhuthro i lawr trwy y dyffryn. Yr oedd ieuanc a hen, a babanod, ac hyd y nod hen wragedd ag oeddynt wedi bod yn hir gyfyngedig i'w gwelyau wedi eu casglu yn nghyd yno; gan nad oedd hwn amser i oedi oddifewn muriau oeddynt yn cracio ac ochain gyda phob wthwm o wynt, ac a allent ar unrhyw foment dd'od i lawr yn un pentwr o ddinystr.

Hyd y nod yn y man cysgodol hwnw, yr oedd siacedi'r gwrrywod a gwallt hir y menywod yn fflapio yn y gwynt fel hwyliau llong wedi rhwygo. Ond allan ar y cynted, yr oedd ffyrnigrwydd yr ystorm yn ddychrynllyd i edrych arno. Yr oedd coedydd mawrion yn plygu fel gwiail, a cherryg aruthrol yn rholio dros ddibyn y graig, a changenau coed yn hedfan trwy yr awyr fel pe byddent wellt neu us; tra ar yr ucheldiroedd, yr oedd bwthyn mwy nag un bugail yn llythyrenol wedi ei chwythu yn ganddryll, ac yn gorwedd yn wasgaredig hwnt ac yma ar hyd ochr y bryn.

Ond mwy dychrynllyd fyth oedd yr olwg ar yr afon islaw, yr hon wedi ei chwyddo gan wythnosau o wlaw, ac wedi ei lluchio megys i ffyrnigrwydd gan y corwynt dychrynllyd, oedd yn ymewynu oriwaered trwy y dyffryn cul gyda thwrf a ymddangosai fel yn siglo'r creigiau a'i muriasai i fewn; a thra yr oedd y bobl yn bwrw golwg arni, dyma un o honynt, bugail talgryf o'r ucheldiroedd, yn pwyntio â'i fys, tra yr oedd gwelwder sydyn yn meddiannu ei wynebpryd, at fwthyn bychan a safai ar ynys yn nghanol y llifeiriant, lle yr oedd gwyneb rhywun yn ddisymwth wedi gwneuthur ei ymddangosiad yn y ffenestr.

"Y *ferryman* ydyw, a'i deulu," ebe un, "nid ydynt wedi cael amser i ddianc."

"Duw'u helpio nhw," ebe un arall, "y mae ar ben arnynt yn awr."

Gyda hyny, dyma swn traed ceffyl yn nesu ar hyd yr heol, a dyn yn dyfod i lawr i lan yr afon, a'i wallt gwyn a mwng ei geffyl yn chwyfio yn y gwynt megys *flag*. Mae si yn pasio trwy y dorf, "Ein meistr yw, y Marchog o Hildesheim!"

A chyn iddo gyrhaedd y lan, yr oedd y marchog yn amlwg wedi gweled perygl y teulu ar yr ynys; gan mai ei eiriau cyntaf oeddynt:

"Dau cant thaler i'r dyn a'u hachuba, Pwy a ä?"

Y mae y dynion yn edrych ar eu gilydd mewn dystawrwydd. Nid oedd yno yr un galon gowardaidd yn eu plith; ond gellid dysgwyl i'r dewraf *backo* yn ol oddiwrth dymhestl ferwedig yr ysgai, yn mreichiau yr hon ni fuasai'r bâd mwyaf nerthol ond megys dim. Fflachiodd

mwy nag un llygad, cauodd mwy nag un dwrn; ond nid oedd neb yn gwneuthur arwydd i fyned yn mlaen. Ac ar y foment hono, dyna dòn aruthrol yn rhuo i fyny ar draws yr ynysig, yn taraw ar fur y bwthyn, ac yn ei rwygo fel papyr, tra yr oedd ysgrechfeydd y plant a'r fam, y rhai oeddynt yn awr yn y golwg, i'w clywed yn amlwg hyd y nod trwy swn a thwrw rhyferthwy yr ystorm.

"A adewch chwi iddynt farw o flaen eich llygaid, heb un ymdrech i'w hachub?" meddai y marchog mewn llais uchel ond crynedig. "Pe buaswn i ddeng mlwydd yn ieuangach mi a awn fy hunan!"

Ar hyny, dyma ddyn dyeithr yn ymddangos, ac fel pe wedi codi o'r ddaear, gan mor ddisymwth y daeth, ac wele efe yn nesu at ymyl yr afon, ac yn gollwng bâd bychan i fewn; ac mewn eiliad bron y mae y dyn a'r bâd yn diflanu yn nghorwynt yr ysgai sydd yn lianw yr awyr. Mae y marchog yn dal yn dyn wrth fwng ei geffyl, a gwelid ei wefusau yn symmud megys mewn gweddi ddwys, tra mae mwy nag un cri myffledig yn ymdori oddiwrth y presenolion pan y gwelsant y bâd bychan o'r diwedd yn ail ymddangos yn ymyl yr ynysig, ac yn dawnsio fel pluen yn nghanol y tonau rhuadwy a ymferwent o amgylch. Ond yr oedd y *ferryman* wedi gweled yr help yn nesu, ac yn barod ar ei gyfer. Mewn moment, gollyngwyd ei wraig i lawr, gyda'i baban yn ei breichiau, a dau blentyn ereill ar eu hol; ond och! nid oedd lle i'r tad yn y bâd bychan, yr hwn oedd eisoes wedi ei orlwytho.

Edrychodd y ddau ddyn dewr y naill yn ngwyneb y llall, a deallasant eu gilydd. A ffwrdd yr aeth y bâd, gan ymsaethu trwy y ffrydlif berwedig fel saeth. Mwy nag unwaith ymddangosai fel pe byddai yr oll ar ben; ond yr oedd llaw y rhwyfwr yn sicr, ac, o'r diwedd, yn mhell i waered, y mae yn dwyn ei lwyth gwerthfawr yn ddyogel i dir. Ac yna, heb aros moment, y mae yn ymaflyd etto yn y rhaff, yn llusgo y bâd i fyny i'r man lle cychwynodd gyntaf, ac yn ymsaethu unwaith etto i ganol y llif.

"Duw fyddo gydag e'!" ebe'r marchog yn wresog iawn; "nid oes yr un dyn arall yn Saxony allai gyflawnu y fath weithred!"

Yn ddewr y darfu i'r dyn ymaflyd yn ei dasg; ac ni ddaeth ond erbyn yr amser. Cyn gynted ag yr oedd y *ferryman* yn y bâd, dyma'r holl adeilad yn dyfod i lawr yn garnedd. Mewn moment, yr oedd yr holl dorf megys mewn cyffro, a chyda'r marchog yn arwain, y maent yn rhuthro i waered i'r lan i gyfarfod â'r achubedig a'i achubwr fel yr oeddynt yn glanio.

"Dyna, 'machgen dewr i," ebe'r hen farchog anrhydeddus, gan ddal allan ei bwrs i'r dyn, "ni ennillwyd arian erioed yn fwy teilwng."

"Dim, dim, syr," meddai'r llall, "y mae Duw wedi fy nerthu hyd yma i gadw fy hunan trwy ddiwydrwydd fy nwylaw, ac nid oes arnaf angen am ddim yn rhagor. Rhoddwch eich arian i'r dyn tlawd hwn a'i deulu, y rhai ydynt wedi colli eu cwbl."

Ac heb aros am ateb, troes ar ei sawdl, a diflanodd. C. F.

Mae yn anmhosibl bod yn arwr mewn dim, oddieithr bod un yn arwr yn gyntaf mewn ffydd.—*J. G. Jacobs.*

WEDI EI DEMTIO FEL NINAU.

Pa fwyaf y byddom i astudio bywyd yr Iesu pur, yr hwn a demtiwyd yn mhob peth yr un ffunud a ninau, mwyaf i gyd y cawn allan fod yr astudiaeth hyny yn ddyddorol, addysgiadol, a chysurlawn. O'r holl dreialon yr aeth Efe trwyddynt, ac a ddyoddefodd yn ddwys, y mae un o'r cyfryw yn neillduol yn rhoddi i ni ddyddordeb o newydd, yn cael ei ddwyn i'r meddwl mewn modd tarawiadol iawn, a'r hwn ni ddarfu i ni ei sylweddoli i'r graddau hyny o'r blaen, sef ei ddyoddefiad olaf.

Y mae golygfa y cyfryw yn ngardd Gethsemane. Y mae ein hamgyffrediad o hono i'w gael yn amlwg iawn yn y weddi a'i galwodd allan, neu ei hachosodd. Wrth yr iaith a arferodd, gallwn ddysgu llawer, er ei fod yn ddibechod, a'i fod yn teimlo yn debyg i ninau ar gyffelyb amgylchiad.

Y mae yn syrthio i lawr wedi ei orchfygu gan ing, wrth feddwl am yr hyn oedd i'w ddyoddef, ac â dagrau ar ei ruddiau, y mae yn gweddio, "O Dad, os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio." Yna, y mae yn gosod allan ei ddymuniad taer a dwys am gael gwared o loes y groes, a phoen marwolaeth arni. Y mae ei enaid yn drist iawn. Y mae yn cael ei aflonyddu gan arswyd a dychryn. Nid yw hyd yma wedi cael ei feddiannu gan lawenydd a heddwch ymostyngiad perffaith. Y mae y ffaith ei fod yn myned yn ol at ei ddysgyblion, fel pe byddai yn awyddus am sicrhau eu cydymdeimlad a'u serch, ac yn gwaeddu allan mewn aceniadau o alar a thristwch dwys, "Oni ellych wylied un awr gyda mi?" yn dadguddio gwir gyflwr ei enaid yn y cyfnod hwn o'i brofedigaeth. Fel y mae yr ymdrech yn myned rhagddi, y mae yn gweddio drachefn. Ond y mae yr iaith y mae yn ei harferyd yn awr yn dadguddio cyflwr meddwl gwahanol, ac yn ddangoseg o fynediad at berffaith ymostyngiad i ewyllys ei Dad—"Fy Nhad, os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio oddiwrthyf; etto, nid fel yr wyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." Y mae ffurf y weddi yn cyfnewid. Nid yw yn dywedyd mwy, "os yw bossibl." Y mae yn awr wedi ennill y fuddugoliaeth ar ei ofnau, ac yn ei drydedd weddi, y mae yn defnyddio yr un geiriau. Y mae wedi cyrhaedd pwynt perffaith ymostyngiad. Y mae yn awr yn gryf a dewr. Y mae yn dyhuno y dysgyblion cysglyd yn ngeiriau siriol un oedd barod i gyfarfod â'i elynion, "Codwn, awn."

Y mae astudiaeth ofalus o'r olygfa yma yn datguddio y gwirionedd fod yr Iesu wedi sicrhau neu feddiannu perffaith ymostyngiad i ewyllys ei Dad, parth ei farwolaeth, trwy ymdrech galed. Ennillwyd y fuddugoliaeth trwy weddi. Ac ai nid felly y mae y gwir Gristion, pan yn dysgwyl ymraniad oddiwrth ei gyfeillion a phoen marwolaeth, yn meddianu perffaith ymostyngiad? Pan y mae y ffaith sobr ar gael ei sylweddoli fod yn rhaid iddo farw, y mae yn ei enaid awydd daer i fyw etto. Y mae yr ymdrech yn fawr. Y mae yr enaid yn drist. Y mae dynion, pryd yma, yn edrych at gyfeillion am gymhorth, am gyssur, ac at Dduw am ryddhad; ond nid oes yr un i'w chael. Rhaid yw iddynt yfed y cwpan. Y mae yr ymdrech yn yr enaid yn

myned trwy yr un graddau a'r Iesu, i ymostyngiad hollol. Yn y diwedd, y mae yn cael ei ennill. Yna, mae pob peth yn llawenydd, heddwch, a dewrder. Y mae yr enaid yn codi mewn buddugoliaeth, ac yn dywedyd, "Codwn, awn." Y mae yn hiraethu am ymddattodiad. Y mae colyn angeu wedi ei gymmeryd ymaith. Fel Crist, "O! fuddugoliaeth hynod." Pwy all ei deall hyd oni fyddo wedi ei sylweddoli? P.

BRAIN BEIDDGAR.

Yn hanes ei theithiau yn Japan, y mae Miss Isabella Brown yn adrodd fod y dystawrwydd yno yn cael ei dori mewn modd rhyfeddol weithiau gan seiniau miloedd o frain, y brain mwyaf craffus a beiddgar a welodd hi erioed. Dywed:—

"Fod pump o honynt mor feiddgar, fel y darfu iddynt ddisgyn ar ddau o fy ngheffylau, ac felly, gael eu cludo yn groes i afon fawr y Yurapugawa.

"Yn ngardd y tafarndy yn Mori, gwelais gi yn bwyta darn o gig yn mhresenoldeb amryw o'r adar trachwantus yma. Darfu iddynt yn amlwg ymddyddan llawer â'u gilydd ar y mater, ac yn awr ac yn y man ceisiai un neu ddau o honynt dynu y cig oddiwrtho, yr hyn, wrth gwrs, a'i cynhyrfai. O'r diwedd, daeth brân fawr, gref, a llwyddodd dori tamaid o'r cig i ffwrdd, a dychwelodd ag ef i ben coeden gyfagos, lle'r oedd y brain ereill wedi ymgasglu. Ar ol llawer o ymddyddan gwresog, dyma nhw i gyd wedi amgylchu y ci, a'r prif aderyn yn gyfrwys iawn yn gollwng y darn bychan o'r cig mewn man cyfleus yn ymyl y ci. Ac yntau can ffoled a'r ci yn chwedl Æsop, a ollyngodd y darn mawr oedd ganddo i ymaflyd yn y darn bychan; ar hyny, dyna ddau o'r brain yn cymmeryd meddiant o'r darn mawr, ac yn ei drosglwyddo yn nghanol banllefau o lawenydd a chymmeradwyaeth i'r goeden, lle y cawsant ffest yn iawn. Edrychai y ci yn ddiflas ac yn wyllt am ychydig, ac wedi hyny, eisteddodd wrth fôn y goeden, a chyfarthodd ar y brain, ond beth well?

"Dywedodd boneddwr wrthyf iddo weled ci yn dra thebyg yn dal darn o gig yn mhresenoldeb tair brân, y rhai a geisiasant gymmeryd y cig oddiwrtho. Wedi ymgynghori â'u gilydd, ymwahanasant, ac aeth dwy mor agos ag y beiddient at y cig, ac aeth y drydedd, a chymmerodd afael dyn a'i danedd ar gynffon y ci, gan beru iddo roi wawch a throi o amgylch, ac ar hyny cymmerodd y ddwy frân arall afael yn y cig, a chafodd y tair fwynhau ffrwyth eu buddugoliaeth ar ben y wàl gerllaw.

"Mewn llawer man y maent mor ymosodol ag i ddinystrio y cropydd, oddieithr iddynt gael eu hamddiffyn gan rwydwaith *(netting)*. Os gwelant geffyl â man tost arno, disgynant ar ei gefn, a darniant ef yn dyllau.—*Unitarian Herald.*

GWAITH A GWEDDI.

Dylai bywyd gwir Gristion fod yn fywyd o weddi. Dylai yspryd gweddi dreiddio trwy ei feddyliau, ac felly, i ddylanwadu yn y fath fodd ar ei eiriau a'i ymddygiad yn y byd, fel ag i argyhoeddi pawb ydynt lygaid-dystion o'i rodiad a'i ymdrafodaeth ag ereill ei fod yn gweithredu yn ol ei broffes. Y mae y galon Gristionogol yn llawn bywyd. Fel y rhedweliau o'r galon yn y corff, y mae yn myned rhaddi, gan guro ei churiadau arferol, ac felly, yn achosi cynhyrfiadau trwy guro felly. Y mae yn curo ac ocheneidio. Y mae dyn yn ocheneidio ac yn griddfan. Pan y mae ergydion a threialon a chyfyngder yn ei aflonyddu gyda nerth mawr, y mae ei ocheneidiau yn uwch, ac y mae yn gweddio yn ddyfalach. Gweddi ydyw curiad bywyd. Mae yn curo mewn cydgordiad a gweddi. Y mae yni cylchrediad yn y weithred unedig yma, a thrwy y gyfundraeth Gristionogol, nid oes dim yn cael ei ddirgymhell yn fwy taer, er sicrhau iechyd yspryd a thawelwch meddwl, nâ deisyfiad a gweddi, ac nid oes, ac ni all, dim fod yn fwy effeithiol i gadw y meddwl dynol yn y cyflwr dymunol y dylai ac y mae yn gweddu iddo fod ynddo.

Ond pan yn effro gyda masnach, y mae dynion, yn fynych iawn, yn gweled ymryson. Y mae yn rhywbeth sydd yn ddychrynllyd, ac o herwydd hyny, nid yw y bywyd Cristionogol bob amser yr hyn y dylai ac y gallai fod. Pan y mae trafodaeth y byd hwn megys yn gwrthryfela â'r bywyd Cristionogol, y mae yn cythryblu dyn, yn gwanhau nerth gweddi, ac yn anmhuro y galon.

Y mae masnach yn fynych, er gwaetha'r modd, yn gwangaloni a llethu ein dynion gweddigar. Dichon na ddylai hyny fod, ond felly y mae, ac oblegyd hyny, maent nid yn unig yn llai gwyliadwrus, ond y maent hefyd ar rai prydiau yn esgeuluso gweddio o gwbl, ac felly, yn farw o farwolaeth annymunol. Nid yw y Cristion byw ddim felly. Nid yw efe yn farw, ac yr ydym yn galw y dyn hwnw sydd ganddo yni gweddigar yn ddyn byw. Y mae yn byw trwy weddi, y mae ei nerth ynddi, ac y mae Duw yn cael ei ogoneddu yn ei fasnach ef. Yn effro yn ei alwedigaeth, y mae yn wresog yn yr yspryd, ac yn dyfalbarhau mewn gweddi,

Y mae ei esiampl fel eiddo yr Apostol Paul, yr hwn a lafuriodd, ac a weddiodd ddydd a nos, ac ar bob adeg briodol. Ac felly, er yn y byd, nid yw o'r byd, ond uwchlaw iddo ; y mae ei weddiau yn daer, ac y mae yn llwyddo yn ei fasnach. Ond ni all dyn bydol weddio ; yn wir, y mae yn waith caled iddo ef feddwl am weddio. R.

Manion a Hanesion.

Mae y *Christian Life* yn dyfynu a ganlyn allan o'r *Gentleman's Magazine* am 1791 :—Bu farw yn Chitds-Ercall, yn 96 oed, John Norton. Mae wedi gadael ei holl eiddo i'w wraig, ond ei fod i fyned oddiwrthi os bydd iddi ail briodi." Y mae Mrs. Norton yn 84 oed, ac yn gloff ac yn ddall.

PWLPUD HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.

(Buddugol).

I bererin blin mae'n hyfryd
Coffa'r darell bêr, ddi-dwrdd,
O'r hon tardda dw'r y bywyd
Rhwng magwyrydd 'Rhen Dy Cwrdd;
Llifa'n afon gref a bywiol
Fel y gwin o'r Pwlpud glân,
A gwir luniaeth enaid duwiol,
Bura ddyn fel aur trwy dân.

PEREERIN BLIN.

DAIONI yw yr unig *orthodoxy* y mae Duw yn ofalu dim am dano, ac y mae pob dyn sydd *yn byw* yn debyg i Grist yn *orthodox*. —*Our Best Words.*

YR "eglwys sanctaidd" hono yw
Sydd wrth y rheol aur yn byw;
A dyogel 'nawr yw hwnw sydd
Yn byw dros ereill nos a dydd
Rhag ofn a phechod y mae'n rhydd.

YR oedd yr "Army & Navy Estimates" y llynedd yn Europe yn £183,519,997, a chymmerodd £207,431,835 yn unig i dalu *interest* y dyledion, ac y mae'r dyledion eu hunain yn cyrhaedd y swm aruthrol o £4,602,389,941. Pa ryfedd fod y byd yn dlawd yn wyneb y gwastraff ofnadwy yma.

DYWEDODD Esgob Manchester yn ddiweddar, os oedd annghymmedrolder yn lladd ei filoedd, fod anlladrwydd yn lladd ei ddegau o filoedd.

PONTARDAWE.—Yn yr arholiad diweddar yn Ngholeg Llanymddyfri, darfu i Thos. John, mab y Parch. John Evans, ennill y "first prize" yn ei ddosparth, yn nghyd a'r "Mathematical prize." Yn mlaen etto, Thomas John.

Y MAE y Parch. E. Ceredig Jones, A.C., wedi ymsefydlu yn Bradford, Yorkshire, a'r Parch. J. B. Lloyd yn Altrincham.

CLYWSOM fod Ysgol Sul, Cwmbach, a'r cyfeillion wedi talu ymweliad eleni ag hen dref hynafol Aberhonddu. Aethant yno mewn cerbydau, a mwynhawyd y daith yn fawr.

YMUNODD Ysgol Sul, H.D.C., Aberdar, ag ysgolion ereill y lle ar y *bank holiday* diweddaf (Llun cyntaf yn Awst). Aethant o amgylch y Park yn un orymdaith fawr, ac wedi dychwelyd, pob ysgol i'w chapel, cafwyd gwledd o de a bara brith, ac yn yr hwyr cynnaliwyd cyfarfod adloniadol. Cedwid coffadwriaeth am Charles o'r Bala fel sefydlydd Ysgolion Sul Cymru, a gwisgai llawer *medals* a llun Charles arnynt.

DEALLWN fod Ysgol Sul Cefncoed wedi cael *outing* llwyddianus eleni. Cawsant y *cold shoulder* gan yr enwadau eleni, ac y mae llawer o ysgrifenu wedi bod yn y *Merthyr Express*, yr hyn yw yr achos fe allai na chafwyd amser i anfon un gair bach i'w osod yn YR YMOFYNYDD. Boed llwyddiant i'r ysgol er gwaethaf y *cold shoulders*.

NOTTAGE.—Mae yr Ysgol Sul yn y lle yma wedi bod yn cynnal ei chylchwyl flynyddol yn y modd mwyaf llwyddianus. Ceir yma lawer iawn o weithwyr ffyddlon gyda'r achos da, ac yr ydys yn llwyddo i'w gadw i fyny yn wyneb llawer iawn o anhawsderau. Mawr lwyddiant iddynt.

Y *Pekin Gazette* yw y newyddiadur hynaf yn y byd.

YR oedd gan y *South Wales Daily News* adolygiad ffafriol iawn o weithiau Channing yn ddiweddar. Ofnwn nad oes dim cymmaint o ddarllen ar weithiau Channing ag a ddylai fod yn Nghymru.

CRIBYN.—Gorphenaf 26, talodd Ysgol Sul y Bwlch ymweliad â ni. Aeth drwy ei gwaith yn hwylus. Dangosai yr athrawon a'r ysgolheigion barodrwydd mawr yn eu hatebion. Da genym weled fod yr Ysgol hon yn parhau yn flodeuog. Cynnyddu wnelo etto. Gobeithio na fydd yn hir cyn talu ymweliad arall â ni. Awst 3, trwy garedigrwydd Mr. Evans, Pont Marchog, cynnaliodd Ysgol Sul y Cribyn ei Gwyl Dê eleni ar ben Caer Maes Mynach. Yma, yn nghwmni'r awelon iachus, y grug, a'r eithin mân, eisteddodd rhyw 200 o honom wrth y byrddau i gyfranogi o'r danteithion blasus a ddarparesid gan Mrs. Jenkins, Rhydybenau, Mrs. Evans, Mynach Arms, Mrs. Evans, Capeli, a Mrs. Davies, Cwm Mynach. Ar ol treulio prydnawn dyfyr ar y Gaer, cawsom gyfarfod llenyddol yn y capel. Yr oedd yr adroddwyr a'r cantorion mewn hwyl dda. Cawsom bresenoldeb y Parchn. J. Davies, Alltyplacca, R. C. Jones, Llanbedr, a J. D. Jones, Llanybyther.

PRIODASAU.

Gorphenaf y 24ain, yn Capel y Fadfa, gan y Parch. W. James, Daniel Thomas, Ffactri Crugyreryr, ag Esther Thomas, Tynewydd, Bwlchyfadfa, ger Llandyssul.

Awst y 4ydd, yn Llwynrhydowen, gan y Parch. W. James, brawd-yn-nghyfraith y briodferch, Mr. D. E. Jones, Harriet St., Aberdar, a Miss Bessie Evans, Laburnum House, Cefncoed, Merthyr.

Marwgofion.

Mai y 23ain, Howell Thomas, Colliers' Arms, Craigtrebanws, yn 65 mlwydd oed. Bu yr ymadawedig yn aelod yn y Gellionen am flynyddau lawer. Bu yn ystod ei fywyd yn selog iawn o blaid crefydd; a thra yn y Gellionen, yn weithgar gyda'r achos yn y lle, a llafurus iawn gyda'r Ysgol Sabbothol a'r cyfarfodydd gweddi yn Graigtrebanws, tra parhaodd ei iechyd. Ond er's yn agos i wyth mlynedd yn ol, collodd ei iechyd, a bu yn gystuddiol am y tymhor hwn, ac yn gyfyngedig y rhan fwyaf o'r amser i'w annedd. Er heb boenau mawr, teimlai y "ty o glai" yn raddol yn dadfeilio; galwai yr ysgrifenydd gydag ef yn aml, a chafodd ef bob amser yn foddlawn iawn i'w gyflwr. Dywedai, "mai blin yn wir oedd y daith ar y pryd," ond teimlai yn hyderus fod gorphwysfa yn ol yn aros plant a phobl Dduw. Yr oedd yn Undodwr o wir argyhoeddiad; canys bu am dymhor yn ei fywyd yn aelod gyda'r Annibynwyr. Gadawodd weddw a chwech o blant—tri mab a thair merch i alaru ar ei ol. Claddwyd wrth y Gellionen, pryd y gweinyddwyd gan J. Evans.—J. E.

Mai y 27ain, Howell John, Glyncoch, Cwmclydach, yn 67 mlwydd oed, o'r *inflammation of the kidneys*. Ni fu ei gystudd ond byr iawn. Gadawodd weddw a chwech o blant ar ei ol—pedair merch a dau fab. Yr oedd Howell John yn ddyn adnabyddus iawn drwy'r cymmydogaethau, ac a berchid yn fawr gan bob dosparth. Dywedir fod yn yr angladd rhyw ddwy fil a hanner o bobl yn talu eu cymmwynas olaf i'r ymadawedig. Ni welwyd y fath dorf ar fynydd Gellionen, mewn angladd, yn nghof neb o'r blaen. Er nad oedd ein brawd wedi cael manteision addysg neilldiol yn moreu ei oes, etto, yr oedd yn ddyn o alluoedd naturiol cryf; yn graffus a miniog ei sylwadau; ac ar yr un pryd yn bwyllog iawn. Byddai yn cael ei alw yn aml i gymhwyso rhyw ymrafaelion rhwng cymmydogion yn yr ardal—pawb yn barod i roddi iddo yr ymddiriedaeth lwyraf, yn credu yn ei degwch. Gwasanaethodd am chwech mlynedd yn aelod ar y Bwrdd Ysgol Rhyndwyclydach. Yn y flwyddyn 1878, bu hytrach yn boeth yn yr Etholiad; ond er poethed ydoedd, gosodwyd H. John yn mhell yn mlaen ar ben y rhestr. Yr oedd yn un o Ymddiriedolwyr (*Trustees*) Capel Gellionen ac Ysgoldy Craigtrebanws. Yr oedd cymmaint ffydd gan y diweddar Hybarch Mr. James, Gellionen, yn H. John, fel y darfu iddo ei appwyntio yn un o'r *executors* yn ei ewyllys ddiweddaf; a chyflawnodd ef a'i *golleague*, L. Williams, Gellionenganol, eu gwaith i foddlonrwydd pawb. Fel llawer o'r hen golofnau ag oedd yn dal i fyny'r achos yn Gellionen, cafwyd colled mawr ar ei ol. Y teidiau, ugain mlynedd yn ol, pa le y maent hwy? Wedi eu cludo i hen gladdfa Gellionen, a Howell John wedi ei gludo atynt erbyn heddyw. Profodd yr ysgrifenydd yr ymadawedig yn wir gyfaill a brawd ffyddlon yn ystod ei adnabyddiaeth ac ef. Gwasanaethwyd wrth y ty ac yn y capel gan J. Evans, gynt weinidog y lle. Nodded y nef fyddo gyda ei deulu galarus.—J. Evans.

Gorphenaf 14eg, yn 30 mlwydd oed, er galar dwys i'w theulu a chylch helaeth o berthynasau, Frances, gwraig John Evans, Sychdy, ger Llandyssul. Yr oedd yn aelod ffyddlon tra y gallai o eglwys Llwynrhydowen, ac arweiniodd fywyd dichlynaidd a theilwng o'i phroffes. Deued lluaws i lanw y lle y ffyddloniaid sydd yn ein gadael. Claddwyd dydd Iau canlynol yn mynwent y Llwyn, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. W. James, yr hwn hefyd a draddododd ei phregeth angladdol i gynnulleidfa luosog yn y capel bore Sul yr ail o Awst, oddiar Heb. xi. 4.

Gorphenaf y 19eg, Mary, priod Evan Jones, Waun-Nani, Llanbedr, yn 38 oed. Claddwyd hi y Mercher canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf. Pregethodd T.T. yn y tŷ annedd. Ni bu iechyd y chwaer ymadawedig yn dda er pan yn ieuanc iawn. Heblaw ei phriod, gadawodd dri o blant, un mab a dwy ferch, i alaru ar ei hol.

Awst y 7fed, yn 52 mlwydd oed, Mary Lewis, Beiligwyn, Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Llun canlynol yn mynwent St. John. Cyn cychwyn o'r angladd, pregethodd y Parch. Thos. Thomas yn y tŷ annedd.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—R.G., Cwmavon; D.E., Ystrad; Rev. J.W., Pantteg; E.J., E.G., Aberdare; Rev. J.E., Pontardawe; T.J., Newcourt; E.P., Glyncorrwg; J.J., Quakers' Yard; B. & F., D.E., Troedyrhiw; D.R., Aberllechau; T.Ll., Porthcawl; D.T., Dolbwba; D.T., Ochryrhos; T.J., Danyffynnon; H.M., Gellionen; J.J., Tonypandy; W.L., Pontypridd; P.P., Blaentrafle; Mrs. H., Gilfachgoch; B.B., Treherbert; D.J., Ciliau; D.E., Rhymney.

☞ Mae yr Eisteddfod wedi bod yn graig rhwystr i ymddangosiad prydlawn YR YMOFYNYDD y mis hwn.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders.* Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

YR YMOFYNYDD—TREFNIADAU Y FLWYDDYN.

Y Syniad Undodaidd
(1) Am Gredoau, gan y Golygydd.
(2) Am Dduw, gan y Parch. J. E. Manning, M.A.
(3) Am y Beibl, gan y Parch. W. Thomas, M.A.
(4) Am Iesu Grist, gan y Parch. R. C. Jones.
(5) Yr Ysbryd Glan, gan y Golygydd.
(6) Yr Eglwys, gan y Parch. W. Parry.
(7) Am Bechod ac Iachawdwriaeth, gan y Parch. E. W. Lloyd.
(8) Am Droedigaeth ac Ailenedigaeth.
(9) Am yr Iawn, gan y Parch. T. Thomas.
(10) Gweddi, gan y Parch. J. Davies.
(11) Am Ddyn, gan y Parch. W. James, B.A.
(12) Nefoedd ac Uffern, gan y Parch. J. H. Davies.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on Application.* ☜

Y CWRDD CHWARTEROL.

Cynnelir ein nesaf yn y Cwmbach, Mercher a Iau, y 30ain o Fedi, a'r 1af o Hydref. Y cyfarfod i ddechreu nos Fercher am 7 o'r gloch. Boreu dydd Iau, am 11 o'r gloch, y pregethwr fydd y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid. Darllenir papyr ar "Genadwri arbenig Undodiaeth," gan y Parch. William James, B.A., Llandyssul.

Er nad ydym ni wedi bod yn alluog, oblegyd afiechyd trwm a maith, i fynychu ein Cyfarfodydd Blynyddol a Chwarterol am lawer o amser, bellach, etto, gobeithiwn a thaer erfyniwn ar yr holl weinidogion, yn gystal ag ereill y bydd yn gyfleus iddynt, i bresenoli eu hunain yn y Cwrdd hwn.

E. W. LLOYD, GWEINIDOG.